

BWYD BENDIGEDIG YN NOLWYDDELAN

Y GWYDYR, TAFARN BENTREF CYMREIG SY'N CYNNIG CROESO CYNNES



Yn dilyn gwaith adfywio diweddar, mae'n bleser gan Y Gwydyr gyhoeddi y byddan nhw'n mynd ati i gynnig eu bwydlen bwyd cartref unwaith eto'n fuan iawn.

Maen nhw'n bwriadu cynnig bwyd amser cinio a gyda'r nos.

Cadwch lygaid ar Facebook i weld pryd fyddai'r bwyty'n ailagor.

Bydd eu byrgyr cig oen cartref arbennig yn dal ar y fwydlen gyda lwc!



PYSGOD A SGLODION I DDRWS EICH TŶ!

Hoffech chi fwynhau eich te yn ystod y penwythnos heb orfod camu o ddrws eich tŷ?

Gwasanaeth newydd sbon ar gyfer Dolwyddelan!

Erbyn hyn mae gan **'Trish a Chips'**

Ffestiniog

raglen ichi allu archebu bwyd o'u bwydlen lawn i'w gludo i'ch drws ymhen slot amser 15 munud sy'n gweddu ichi.

nos lau, nos Wener, nos Sadwrn a nos Sul.

Sylwadau Facebook . . .

*Buaswn i'n ei argymhell. Pysgod a sglodion blasus ac mae'n hyfryd ei fod wedi'i gludo i'ch tŷ.

*Gwasanaeth gwych, roedd y bwyd yn boeth ac yn flasus.

